Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Blagur Haf Caergeiliog**

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog**
**Lon Bach**
**Caergeiliog**
**LL65 3NP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/08/2023

# Meithrinfa Blagur Haf Caergeiliog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Lindsea Roberts |
| Lleoedd cofrestredig | 57 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn aml yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion, ar y cyfan, yn cael eu hystyried. Maent yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu o'u rhieni / gofalwyr oherwydd bod eu trefn o ddydd i ddydd yn briodol ac yn cydnabod ac yn cefnogi eu hanghenion unigol ar y cyfan. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gadarnhaol. Mae hanner y plant yn gyffredinol yn ymgysylltu â'u chwarae a'u dysgu ac yn cael cyfleoedd addas i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae hanner y plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth, ac yn anelu at roi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith mewn ffordd addas. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymatebol; Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Ar y cyfan, mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar y cyfan, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n rhesymol y tu mewn a'r tu allan. Mae'r lleoliad yn gweithredu o ddau safle. Lleolir darpariaeth y plant iau gyferbyn â'r ysgol gynradd leol ac mae darpariaeth y plant hŷn wedi'i lleoli ar safle'r ysgol gynradd. Ar y cyfan, mae eu harferion rheoli heintiau digonol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae ddigonol dan do er mwyn i'r plant allu symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r plant ac yn galluogi hanner ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau ac i greu canlyniadau gwell i'r plant. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i ddarpariaeth y plant iau er mwyn gwella safonau a chydymffurfio â'r rheoliadau.

| **Llesiant** | **Digonol** |
|---|---|

Ar y cyfan, mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Mae gan hanner y plant ddiddordeb priodol yn eu profiadau chwarae a dysgu ac maent yn ymgysylltu â nhw.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ar y cyfan. Maent yn mwynhau dangos yr hyn y maent yn hoffi ei wneud a chwarae ag ef. Er enghraifft, roedd plentyn yn mwynhau lliwio creaduriaid y môr ac yn pwyntio at bob un ac yn eu henwi'n gywir. Pan wnaeth plentyn iau gais dieiriau am ei iogwrt, ymatebodd yr aelod o'r staff ar unwaith. Mae'r plant hŷn yn archwilio eu hardal chwarae yn hyderus, gan wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau eu hunain yn dda. Er enghraifft, gofynnodd plentyn a allai roi dŵr i'r planhigion, ac aeth ati i wneud hynny.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos i ni sut maent yn golchi eu dwylo. Gwnaed i blentyn ymlacio a theimlo'n gyfforddus wrth newid ei gewyn ac roedd yn sgwrsio'n fodlon â'r staff.

Mae llawer o'r plant yn rhyngweithio'n briodol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn cydweithredu'n briodol er mwyn tacluso eu teganau. Mae'r plant iau yn cynhyrfu rhywfaint am nad oes digon o weithgareddau ac adnoddau da i gynnal eu brwdfrydedd a'u diddordeb. Er enghraifft, aeth plentyn â thegan cysuro ei ffrind oddi wrtho er mwyn gallu chwarae ag ef, gan achosi i'w ffrind deimlo'n bryderus. Caiff y plant eu canmol ag iaith gadarnhaol am eu hymdrechion. Mae'r plant hŷn yn dysgu i rannu a chymryd eu tro yn dda. Maent yn cael llawer o hwyl wrth yr hambwrdd dŵr yn ymarfer eu sgiliau llenwi ac arllwys. Mae plentyn yn dangos i'w ffrind sut y gall wneud i'r morfil neidio ac maent yn chwerthin gyda'i gilydd wrth i'r dŵr eu sblasio.

Nid yw'r plant iau yn cael cynnig yr un cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog â'r plant hŷn. O ganlyniad, mae'r plant iau yn colli diddordeb yn gyflym. Er enghraifft, roedd plentyn wrthi'n adeiladu trac trenau'n llawn brwdfrydedd, ond cafodd ei siomi pan nad oedd y darnau cywir ar gael. Dewisodd plentyn chwarae yn y gornel gartref, ond gan nad oedd digon o bropiau cysylltiedig, nid oedd cyfle i'r plentyn ehangu ei ddychymyg. Mae'r plant hŷn yn llwyr ymroi i'w chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, cafodd plentyn drafodaeth fywiog â'r staff yn ystod gweithgaredd ar thema natur. Dangosodd i'r staff sut roedd yn defnyddio ysbienddrychau i weld y *'birdies in the sky'* ac yn defnyddio chwyddwydr i archwilio *'insects in the garden'.* Mae'r plant hŷn yn canolbwyntio'n dda wrth gwblhau posau.

Mae hanner y plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas. Er enghraifft, mae'r plant iau yn methu allan ar gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Er enghraifft, nid ydynt yn cael y profiad o helpu i baratoi'r prydau bwyd nac i helpu eu hunain yn ystod amser byrbryd. Llwyddodd plentyn hŷn i ddatblygu ei annibyniaeth yn dda drwy ddewis

defnyddio'r cyfrifiadur ac esgus cael sgwrs ar y ffôn wrth iddo deipio. Nid yw pob plentyn yn dysgu sut i wneud pethau drosto'i hun ag anogaeth briodol gan bob aelod o'r staff.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn ofalgar, ac yn rheoli rhyngweithiadau yn briodol. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall y rhan fwyaf o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Mae gan y staff ddealltwriaeth sylfaenol o'r gweithdrefnau diogelu y byddent yn eu dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Maent yn cofnodi eu pryderon ond nid ydynt yn darparu diweddariad ar ba gamau gweithredu a gymerwyd ac a yw'r mater yn mynd rhagddo o hyd neu wedi'i ddatrys. Nid yw'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, ni chaiff cyfarpar diogelu personol ei ddefnyddio'n gywir bob amser. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iachus ac i fod yn egnïol drwy chwarae tu allan yn yr awyr iach. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fwyd a Maeth yn gyson. Er enghraifft, rhoddwyd un darn bach o fanana i'r plant iau yn ystod amser byrbryd, ac nid oedd hyn yn diwallu eu hanghenion o ran egni. Mae polisi bwyd a maeth y lleoliad yn nodi y bydd *'juice-based drinks'* yn cael eu cynnig yn ogystal â dewisiadau iachach o laeth a dŵr yfed ffres. Yn ystod trafodaeth â'r person cofrestredig, cadarnhaodd y byddai'n gweithredu i sicrhau bod y plant yn cael digon o fyrbryd i ddiwallu eu hanghenion o ran egni ac i gynnig dim ond llaeth neu ddŵr fel diodydd.

Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cydnabod yn glir gan bob rhiant a gofalwr er mwyn dangos eu bod yn cael eu hysbysu'n rheolaidd. Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb eu hunain a'r plant yn gyson ond nid ydynt yn cynnwys yr oriau dyddiol maent yn mynychu. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Cynhelir ymarferion tân ar adegau derbyniol ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i hysgrifennu am y canlyniad er mwyn helpu i wella yn y dyfodol.

Mae'r staff yn siarad yn hyfryd â'r plant iau, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn annog y plant hŷn i ymgysylltu'n llwyr â'u chwarae a'u dysgu; mae trafodaethau bywiog yn cael eu clywed.  Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion unigol.

Mae'r staff yn cynllunio ac yn trefnu gweithgareddau sylfaenol i'r plant iau nad ydynt yn llwyddo i ennyn na chynnal eu diddordeb am gyfnodau priodol o amser. Er enghraifft, roedd gan y plant iau fwy o ddiddordeb yn y dŵr a oedd wedi cael ei ollwng ar y bwrdd na dewis o blith y gweithgareddau a oedd ar gael. Trefnodd aelod o'r staff weithgaredd paentio a chafodd rhai o'r plant y profiad o ddefnyddio eu dwylo i baentio pysgodyn ar blât papur a gwnaethant fwynhau hynny. Darparodd y staff enghreifftiau o ddyddiaduron dyddiol y plant lle maent yn nodi cynnydd a datblygiad pob plentyn. Rhoddir digon o brofiadau chwarae a dysgu cyfoethog i'r plant hŷn i ddatblygu eu sgiliau emosiynol, corfforol, ieithyddol a chreadigol. Trefnodd y staff gyfle i'r plant arbrofi wrth gymysgu paent a darganfod pa liwiau y gellid eu creu. Gwnaethant helpu'r plant i chwarae rôl yn y gornel gartref drwy gyflwyno amrywiaeth o bropiau a thrwy ofyn cwestiynau i ehangu dychymyg y plentyn. Maent yn olrhain cynnydd y plant hŷn yn dda ac yn cynllunio ar gyfer eu camau dysgu nesaf.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân ar y cyfan lle gall y plant chwarae a dysgu mewn ffordd addas.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod system briodol i reoli mynediad i'r safle. Mae'r lleoliad wedi'i leoli ar ddau safle, ond dim ond lleoliad y plant iau oedd yn defnyddio llyfr ymwelwyr. Mae'r asesiadau risg yn gyffredinol ac nid ydynt yn adlewyrchu'r safle, yr adnoddau, y teganau a'r gweithgareddau yn llawn ac nid ydynt yn nodi'r peryglon posibl i'r plant na'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn yn llawn. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ar waith yn gyson ar gyfer glanhau'r safle, y teganau a'r cyfarpar. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn ystod trafodaeth â'r person cofrestedig, cadarnhaodd y byddai'n gweithredu ac yn ymdrin â'r materion hyn. Mae'r person cofrestedig wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb am sut y byddent yn ymdrin ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn briodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o le chwarae dan do ar gael i'r plant symud o amgylch yn hwylus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig i storio eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Fodd bynnag, mae'r pegiau cotiau yn rhy uchel i'r plant iau eu cyrraedd i helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn sicrhau bod teganau ac adnoddau ar gael yn hwylus i'r plant hŷn. Fodd bynnag, mae blychau teganau'r plant iau wedi'u gorlenwi sy'n ei gwneud yn anodd i'r plant weld beth sydd ynddynt.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau o ansawdd da ym mhob ystafell chwarae. Maent yn sicrhau bod dodrefn o faint addas ar gael i'r plant. Mae gwaith celf y plant yn cael ei arddangos mewn ffordd ddeniadol, gan ddangos bod ymdrechion y plant yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig ardaloedd dysgu deniadol dan do ac yn yr awyr agored i'r plant hŷn. Mae gan yr ardaloedd chwarae hyn amrywiaeth lawn o adnoddau naturiol ac adnoddau wedi'u hailgylchu o ansawdd da er mwyn datblygu chwilfrydedd y plant, eu sgiliau synhwyraidd, eu sgiliau ieithyddol, eu sgiliau rhifedd a'u hunanymwybyddiaeth. Mae'r ardaloedd ar gyfer amser tawel a'r ardaloedd ar gyfer gorffwys yn hyfryd. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn amgylchedd y plant iau. Yn ystod trafodaeth â'r person cofrestedig, cydnabu hyn a chadarnhaodd y byddai'n gweithredu i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn codi ymwybyddiaeth rhai o'r plant o'r byd o'u cwmpas drwy ddarparu gwahanol arddangosiadau, doliau ac adnoddau, sy'n dangos diwylliannau gwahanol.  Maent yn cynnig digon o le i'r plant hŷn ddysgu am dyfu, plannu, gofalu am fywyd gwyllt a darganfod pryfed.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn weithgar ac yn ymroddedig ond mae angen gwneud datblygiadau a gwelliannau i greu canlyniadau gwell i bob plentyn ac i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i rieni a gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, ond maent wedi'u teilwra at yr ysgol gynradd lle caiff y lleoliad ei gynnal, yn hytrach na'r lleoliad blynyddoedd cynnar. Yn ystod trafodaeth â'r person cofrestedig, cydnabu hyn a chadarnhaodd y byddai'n gweithredu i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r person cofrestedig wedi cyflwyno'r datganiad hunanasesu gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth addas o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a defnyddir Cymraeg sylfaenol drwy gydol y dydd i godi ymwybyddiaeth y plant o'r iaith ac i wella eu defnydd ohoni.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn cynnig gwerthusiad sylfaenol o'r lleoliad. Mae'r adroddiad yn cynnwys y sylwadau a gasglwyd gan bawb sy'n defnyddio'r lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn cydnabod yn llawn y meysydd a nodwyd fel meysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth na pha gamau gweithredu a gaiff eu cymryd i helpu'r lleoliad i ddatblygu yn y dyfodol.

Mae'r person cofrestedig wedi sicrhau bod gwiriadau datgelu a gwahardd (DBS) cyfredol wedi'u cynnal ar gyfer y staff a'u bod wedi cael yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf. Fodd bynnag, nid yw'r person cofrestedig wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn ffeiliau cyflogaeth y staff a chofnodion unigol y plant. Er nad oes angen cymryd camau ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu. Cyflwynwyd sampl o'r trafodaethau a gofnodwyd, a chadarnhaodd y person cofrestredig ei bod yn eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gall y staff drafod eu hanghenion lles, eu harferion a'u hanghenion hyfforddi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dechrau datblygu gwaith ymgysylltu cymunedol â'r plant iau. Mae'r plant hŷn wedi ymweld ag atyniadau lleol er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'u cymuned a'r ardal leol er mwyn gwella eu sgiliau cymdeithasol.

Yn ystod trafodaethau â'r person cofrestedig, cydnabu'r meysydd i'w gwella y mae angen canolbwyntio mwy arnynt yn y ddarpariaeth a chadarnhaodd y caiff camau rhagweithiol eu

cymryd i ymdrin â'r materion. Mae'r person cofrestedig yn ymroddedig, a dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at lywio gwelliannau ar gyfer y plant ac at weithio'n agos â phob aelod o'r staff er mwyn helpu i ddatblygu a gwella eu hymarfer.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ofynnol ei chasglu yn ffeiliau cyflogaeth y staff er mwyn cadarnhau eu bod yn addas. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y plant iau yn cael cyfleoedd a phrofiadau chwarae a dysgu cyfoethog. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y teganau a'r adnoddau ar gyfer y plant iau o ansawdd da a bod y gweithgareddau a ddarperir yn helpu'r plant i ddatblygu ac yn adeiladu ar eu chwilfrydedd naturiol. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd yn annog pob plentyn i fod yn hyderus ac yn annibynnol wrth ddilyn ei ddiddordebau ei hun. Rhaid sicrhau bod y gweithgareddau a'r profiadau yn cynnig gwerth a diben i bob plentyn. | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu safle'r lleoliad, y gweithgareddau, y teganau, yr adnoddau, ac unrhyw wibdeithiau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn.  Rhaid i'r person cofrestedig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall ac yn dilyn y canllawiau rheoli heintiau cyfredol mewn perthynas â gweithdrefnau newid cewynnau a'u bod yn rhoi arferion glanhau cadarn a rheolaidd ar waith ar gyfer y safle, y teganau a'r adnoddau. | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yng nghofnodion unigol y plant. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn cofnodi eu oriau presenoldeb eu hunain ac oriau presenoldeb y plant hefyd. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod proses glir a chyson ar gyfer cofnodi cydnabyddiaeth rhieni / gofalwyr o ddamweiniau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'u plant. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn diweddaru cofnodion o bryderon gan nodi'r camau gweithredu a gymerwyd ac a yw'r materion wedi eu datrys neu a ydynt yn cael eu monitro. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod y staff yn dilyn canllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru i leoliadau gofal plant er mwyn sicrhau bod y byrbrydau a gaiff eu paratoi yn gytbwys o safbwynt maeth, o ansawdd da ac yn briodol eu maint. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod Adroddiad yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn cynrychioli gwelliant parhaus er mwyn asesu a gwella ansawdd y gofal a'r canlyniadau i blant. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu teilwra'n benodol i'r lleoliad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/10/2023